



# GWEITHIO GYDA'N GILYDD AR GYFER RINGLAND

Croeso i'r pedwerydd rhifyn o Gylchlythyr Ringland sy'n dod â'r diweddaraf i chi ar ddatblygiad Campws Ringland; sy'n cynnwys y Ganolfan Iechyd a Llesiant, yr Adfywiad Siopau, a'r Hwb. Gyda chymaint o weithgarwch gan nifer o sefydliadau, roedd yn gwneud synnwyr i ddod â'r cyfan ynghyd mewn un lle.

Rydym yn awyddus i gyfathrebu unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r datblygiadau newydd yn ogystal ag amlygu gwaith gwych y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol yn yr ardal.

Os ydych yn ymwybodol o Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon Ysgol neu sefydliadau gwirfoddol, neu os ydych yn rhan o grwpiau cymunedol, ac yr hoffech rannu eich llwyddiannau gyda'r ardal ehangach, cysylltwch â ni.



Lovells a Newport City Homes sy'n gyfrifol am weinyddu'r broses Budd Cymunedol fel rhan o Ddatblygiadau Ringland. Gall Budd Cymunedol gynnig cymorth ariannol, cyngor, gwybodaeth ac arbenigedd ymarferol sy'n bodloni anghenion y gymuned. Rydym yn bwriadu cefnogi'r gymuned mewn ffyrdd a fydd yn gwella'r gymuned ehangach. Gall hyn gynnwys, er enghraifft: prynu eitemau bach o gyfarpar; mân waith adeiladu; cymorth gyda gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau; dechrau a datblygu busnes; prosiectau peilot. Mae Newport City Homes yn awyddus i gefnogi grwpiau cymunedol drwy ganolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Darparu cymorth cyflogadwyedd
- Hyrwyddo cymunedau mwy diogel a chysylltiol
- Cymorth Cynhwysiant Ariannol
- Rhoi cymorth gyda Chynhwysiant Digidol
- Hyrwyddo Iechyd a Llesiant

Am ragor o wybodaeth, neu i wneud cais, anfonwch e-bost at: [Meriel.gough@lovell.co.uk](mailto:Meriel.gough@lovell.co.uk) a [communitybenefits@newportcityhomes.com](mailto:communitybenefits@newportcityhomes.com) a bydd y partner mwyaf perthnasol yn cysylltu â chi i glywed eich syniadau. Yna, gallwn eich cefnogi drwy ddarparu'r wybodaeth i wneud cais ar gyfer Buddion Cymunedol Ringland.



## CANOLFAN IECHYD A LLES 19 HILLS

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar y cyd â Chyngor Dinas Casnewydd a'n partneriaid trydydd sector, yn agor Canolfan Iechyd a Lles newydd a fydd yn rhan o hwb cymunedol bywiog a fydd ar gael i drigolion Dwyrain Casnewydd.



Bydd y gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys:

- Gwasanaethau Meddyg Teulu (Practis Meddygol Ringland a Meddygfa'r Parc)
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu
- Gwasanaethau Deintyddol
- Clinigau Asesu Cof
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol
- Awdioleg
- Dechrau'n Deg
- Ymwelwyr Iechyd
- Dietegwyr
- Nyrsio Ardal
- Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd
- Cefnogaeth Lles
- Gwasanaethau Podiatreg
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau
- Retinopathi Diabetig
- Iechyd meddwl
- Sgrinio am Anewrysm Aortig yn yr Abdomen



Yn ogystal â gwasanaethau meddygol, bydd yr hwb cymunedol yn dod â phobl ynghyd i gefnogi lles, lleihau unigrwydd a hyrwyddo byw'n annibynnol, hyn oll mewn amgylchedd groesawgar.



## BIPAB A DIWEDDARIAD KIER

Bydd y gwaith ar y cladin a'r gwaith brics yn cael ei orffen yn ystod yr wythnosau nesaf o amgylch y tu allan i'r adeilad, a bydd y sgaffald ar y ffordd fawr yn dod i lawr yn fuan. Gan fod yr adeilad bellach yn dal dŵr, mae gwaith mewnol yn mynd rhagddo'n dda, ac mae ystafelloedd wedi'u ffurfio. Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn dod â chrefftwyr i mewn i orffen yr adeilad, megis addurnwyr, gosodwyr llawr a byddwn yn gosod dodrefn.



Rydym wedi gwneud cynnydd o ran y gwaith allanol, gan greu maes parcio'r cleifion a'r manau sydd wedi'u tirweddu o amgylch yr adeilad.

Bydd gwasanaethau'n dechrau symud i'r Ganolfan Iechyd a Lles ar ddechrau 2025. Bydd cleifion o Feddygfa Ringland a Meddygfa'r Parc yn derbyn gohebiaeth gan y Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybod iddynt pryd y byddant yn symud i mewn i'r ganolfan.



I gael rhagor o wybodaeth am y datblygiad, gan gynnwys rhestr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i: [Canolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(nhs.wales\)](#).

# Gwaith yn Ringland: Diweddariad ar barcio

Mae Newport City Homes (NCH) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) ill dau yn gwneud llawer o waith yn ardal Ringland.

Mae NCH yn adeiladu 158 o gartrefi newydd ac yn ailadeiladu'r ganolfan siopa, ac mae BIPAB yn adeiladu Canolfan Iechyd a Lles newydd 19 Hills.

## Maes parcio'r ganolfan siopa

Mae Newport City Homes yn gweithio gyda'r contractwr Lovell, ar ddymchwel y siopau gwag, er mwyn gwneud lle i adeiladu'r cartrefi a'r ganolfan siopa newydd. Bydd y gwaith yn dechrau yn ddiweddarach eleni.

Mae maes parcio'r ganolfan siopa bellach ar gau, er mwyn i'r gwaith dymchwel ac ailadeiladu ddigwydd yn ddiogel.

Mae parcio amgen ar gael yn y maes parcio isaf ger Cylch Fferm Cot. Mae trefniadau parcio amgen penodol wedi'u gwneud ar gyfer trigolion Milton Court. Gwyddom y gall cau'r ardal hon achosi rhywfaint o anghyfleustra, ac rydym yn ddiolchgar am eich amynedd wrth i ni gyflawni ein gwaith i drawsnewid Ringland.

## Cerbydau contractwr

Rydym yn gwybod y gall cael llawer o gerbydau contractwr yn yr ardal effeithio ar barcio ar y stryd, ac rydym yn gweithio'n agos gyda chontractwyr a phobl leol i leihau'r aflonyddwch gymaint â phosibl.

Mae Lovell yn darparu ardal o fewn y safle, yn benodol er mwyn i'w staff a'u contractwyr barcio ynddo, er mwyn lliniaru'r effaith ar y gymuned leol. Gellir gweld hyn, yn ogystal ag ardaloedd dynodedig eraill ar y safle ar y map a ddarperir.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Cartrefi Dinas Casnewydd ar 01633 381111.



Gellir cael mwy o wybodaeth am Ganolfan Iechyd a Lles 19 Hills gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

[www.bipab.gig.cymru](http://www.bipab.gig.cymru)



Gellir cael mwy o wybodaeth am y cartrefi a'r ganolfan siopa newydd gan Newport City Homes

[www.newportcityhomes.com/cy/](http://www.newportcityhomes.com/cy/)



# DIWEDDARIAD LOVELL A NEWPORT CITY HOMES

Mae prosiect Adfywio Ringland yn mynd rhagddo'n dda wrth inni symud i ail gam y gwaith. Ar hyn o bryd rydym yn gosod sylfeini a bolltau dal i lawr er mwyn paratoi ar gyfer codi'r ffrâm ddur ym mis Hydref 2024.

Yn ystod gwyliau haf Ysgol Gynradd Milton, cwblhawyd y gwaith o ddargyfeirio draeniau ar Heol Fferm Hendre yn llwyddiannus. Gwerthfawrogwn eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar ehangu gardd Milton Court, a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2024.

## Diweddariad Cymunedol Lovell

### Cyflwyniad iechyd a diogelwch yn Ysgol Gynradd Ringland



Ar 20fed Mehefin 2024, fe wnaethom ymweld ag Ysgol Gynradd Ringland, i roi sgwrs i 93 myfyrwr. Roedd y sesiwn yn ymdrin â'r peiriannau a ddefnyddiwyd yn natblygiad adfywio Ringland, pwysigrwydd offer diogelwch, a pheryglon safle gwaith. Wnaeth y plant gwisgo i fyny mewn offer diogelwch, a dysgu am rolau rheolwyr safle a labrwr.

Fe wnaethom hefyd bwysleisio diogelwch beicio o amgylch y safle adeiladu. Roedd y sesiwn yn cynnwys trafosaethau ar ymdrechion amgylcheddol ac yn annog plant i rannu eu harferion ecogyfeillgar eu hunain. Derbyniodd pob plenty fag chwaraeon Lovell a llyfryn iechyd a diogelwch. Dosbarthwyd hwn i atgyfnerthu diogelwch y safle mewn ffordd hwyliog a deniadol.



# DIWEDDARIAD LOVELL A NEWPORT CITY HOMES

Ymgasglodd y tim partneriaeth ar y safle i lansio cylchwyn swyddogol y datblygiad.

Dyweddodd rheolwr gyfarwyddwy rhanbathrol Lovell, James Duffett, "Rydym wrth ein bodd bod gwaith bellach wedi dechrau ar gam nesaf y cynllun adfywio cylchdir ac y gallwn ddechrau cyflawni newid cadarnhaol i'r ardal leol.

Rydym yn gwybod fydd y prosiect hwn yn trawsnewid Ringland yn lle cynaliadwy a bywiog y bydd pobl yn falch o fyw a gweithio ynddo. Ar ôl cwblhau datblygiad Cot Farm yn llwyddiannus yn 2021, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chartrefi dinas Casnewydd a profddinas-ranberth Caerdydd unwaith eto ar yr ymdrech gyffrous hon."

Meddai cyfarwyddwy gweithrefol datblygio cartrefi dinas Casnewydd, Matthew Davies, "Rydym yn hynod falch o allu parhau â'n gwaith gyda Lovell i gyflawni cam nesaf ein trawsnewidiad o gylchdir. Ar ol llwyddo i gyflewni 55 cartrefi yn Cot Farm gyda Lovell, bydd y camau nesaf hyn yn cael effaith hyd yn oed yn fwy ar y gymuned gyda thrawsnewid y ganolfan siopa. Bydd yr adfywio nid yn unig yn darparu arlwy manwerthu llawer mwy hygyrch a deniadol ond hefyd yn ein helpu i barhau tuag at ein nod o fynd i'r afael â'r argyfwng tai a darparu tai y mae mawr eu hangen ar gyfer yr ardal hon."



"Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda'n partneriaid Lovell unwaith et oar y datblygiad hwn o dai fforddiadwy carbon isel, ynni-ffeithlon. Rydym hefyd yn dymuno cydnabod y cymorth a'r cyfraniad parhaus y mae llywodraeth Cymru a chyngor dinas Casnewydd wedi'u gwneud yn y cynnydd a'r ddarpariaeth o'r datblygiad trawsnewidiol hwn."

Dyweddodd y Cymghorydd Andrew Morgan, OBE, arweinydd cyngor bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf, ac arweinydd portfolio ar gyfer y gronfa bwch hyfywedd tai "Rwy'n edrych ymlaen at weld y prosiect adfywio adfywio Ringland yn cyrraedd y cam datblygu nesaf ac yn dechrau cael effaith gadarnheol yng Nghasnewydd. Bydd ein buddsoddiad o gronfa bwch hyfywedd tai CCR yn helpu i drawsnewid yr ardal drwy adfywio canolfan siopa Ringland a chyflewni tai fforddiadwy, ynni effieithlon i'r gymuned leol."

Y cynghorydd Dimitri Batrouni, arweinydd cyngor dinas Casnewydd, yn ychwanegu "Rwy'n falch bod y prosiect adfywio cyffrous hwn wedi dechrau'r gwaith adeiladu yn Ringland yn swyddogol. Drwy ddatblygu'r prosiect mewn ymgynghoriad â thrigolion, bydd y cynllun yn rhoi'r gymuned ar flaen y gad o ran datblygu ac yn sicrgau newid cynaliadwy gwirioneddol i'r ardal leol.



## LOVELL COMMUNITY UPDATE

### Profiad ymarferol i fyfyrwyr Ysgol Gynradd Ringland

Cynorthwyodd saith o blant o Ysgol Gynradd Ringland, Leigh Reardon, briciwr o Millisan, mewn sesiwn ymarferol ar osod brics. Maent yn adeiladu bbq, yn dysgu sgiliau gwerthfawr ac yn ennill profiad gwaith ymarferol.



### Plannu hadau blodyn yr haul yn Ysgol Gynradd Milton



Fe wnaethom ymgysylltu â 44 o ddisgyblion yn ysgol gynradd milton mewn tair sesiwn 45 munud i blannu hadau blodyn yr haul, fel rhan o ddiwyddiad bwyd a hwyl trwy blannu olympaidd ar 30 Gorffennaf 2024. Darparodd Lovell fenig, offer, potiau, pridd a hadau. O ganlyniad dysgodd y plant am arddio ac ymgysylltu â'r gymuned tra'n meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a gwaith tîm.

### Cynllun Adeiladwyr Ystyriol

Ar 21fed Mai 2024, cafodd prosiect adfywio tir y cylch sgôr ardderchog o 45/45 gan y cynllun adeiladwyr ystyriol CCS. Mae'r sgôr uchel hwn yn adlewyrchu ymrwymiad y prosiect i'r safonau uchaf o ran ymgysylltu â'r gymuned, diogelu'r amgylchedd a lles gweithwyr. Mae'r gydnabyddiaeth yn tanlinellu ymroddiad y prosiect i gael effaith gadarnhaol ar ardal Ringland a gosod meincnod ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.





# Rhwydwaith Dros 50 yn Y Sied



**Botox & Bangs**  
Hair & aesthetics  
07522465860

Wash, cut & blow dry/set	£30
Restyle (over 2 inches)	£35
Dry/wet cut	£10-£15
Wash & blow dry/set	£20
FH colour	£40-£50
Root regrowth	£30
FH foils	£50-£70
HH foils	£40-£50
Capped hi/low lights	£40
Toning service	£15
Perm	£40

All services include a cut, wash & blow dry (cut if required)  
Other services available upon request. For aesthetics message for price list and offers

Y Sied Salon  
Treberth Crescent,  
Newport,  
NP199P



In partnership with  
**Home Instead**  
for the aged  
**POBL**



**FREE**  
**MONTHLY PROGRAMME**  
of activities, exercise and companionship...

...for those in later life with mobility or health challenges or who just want to make new friends

**Sessions Held The Last Wednesday Of Every Month**

**Part of the balanced lives programme**

Gentle movement  
Basic Health Advice  
Learn new life skills

Meet people of similar age and interests  
Plus some suggestions to improve your overall health and well-being

Join us after gentle exercise for:

**Reminiscence Activities**

Helping older adults feel more confident in their abilities and providing them with the opportunity to talk about what holds meaning for them.

**Location - Y Sied, Treberth Crescent, Newport, NP19 9TG**

10.30am until 11.30am - Gentle Exercise  
12pm until 1pm - Reminiscence Activities

50+

For further details contact us on:  
**03033 030 132**  
Email us at: [info@actionforelders.org.uk](mailto:info@actionforelders.org.uk)  
[www.actionforelders.org.uk](http://www.actionforelders.org.uk)  
TEXT COMMIT to 70085 to donate £3

Your text donations will be added to your next phone bill, plus your standard network text charge.  
Action For Elders is a registered charity relying solely on donations.



Mae'r grŵp cymunedol yn weithgar iawn yn Y Sied ac ardal Treberth, "yn cynnig digwyddiadau cymdeithasol i drigolion a'r gymuned leol. Ymhlith y gweithgareddau amrywiol mae boreau coffi, bingo, clybiau brecwast, nosweithiau swper cymdeithasol a theithiau cymunedol, a lluo o rai eraill.

Mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu'n uniongyrchol at wella lles preswylwyr, ac mae rhai ohonynt yn dweud 'nad oedd ganddynt unrhyw un i gael paned o de gyda hwy o'r blaen hyd yn oed'.

Mae hyn oll wedi bod yn bosibl trwy ymroddiad a gwaith caled arweinwyr allweddol yn y gymuned, hen a newydd, sydd wedi dod at ei gilydd, wedi cefnogi ac wedi croesawu ei gilydd, a gyda'u gilydd maent yn rym pwerus a fydd yn cyflawni pethau gwych!" (POBL, 2023)

Dydd Mawrth 1pm - Bingo

Dydd Mercher 10am - 12pm - Clwb Brecwast

Dydd Iau 11am - 1pm - Bore Coffi Cymunedol

Dydd Gwener 10am - 12pm - Clwb Brecwast



# Academi Ieuentid Casnewydd

Mae Academi Ieuentid Casnewydd yn ddarpariaeth ysbrydoledig, sy'n trawsnewid bywydau, wedi'i llunio ar gyfer pobl ifanc Casnewydd rhwng 16 a 19 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

Yr academi yw un o ddarparwyr hyfforddiant mwyaf Casnewydd gyda thros chwe blynedd o brofiad yn hyfforddi pobl ifanc ac yn eu helpu i mewn i gyflogaeth ac addysg uwch/bellach.

"Fe wnes i fwynhau'r gweithdy ymwybyddiaeth o ysmegu gan ei fod wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi o sut mae ysmegu'n effeithio ar ein corff"



"Maen nhw wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi o sut i ofalu amdanaf fy hun a ble i fynd pe bai pethau'n digwydd"

Yn ddiweddar, mae Academi Ieuentid Casnewydd wedi croesawu llawer o weithdai rhyngweithiol diddorol ar gyfer y dysgwyr gan gynnwys gweithdai lechyd Rhywiol y GIG, Siaradwr Gwadd y Senedd a Polisol.

Mae dysgwyr Academi Ieuentid Casnewydd ar draws y ddau faes wedi cwblhau Cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd a Rhifedd yn ddiweddar. Yn ogystal â gweithio tuag at gymhwyster 'Gwasanaeth Cwsmer a Datblygiad Proffesiynol - Lefel 2', Mae dysgwyr wedi cwblhau cyrsiau mewn Ymwybyddiaeth o Alcohol ac Ysmegu gan ennill gwybodaeth hanfodol a chymhwyster cydnabyddedig.


At hyn, mae llawer o ddysgwyr wedi bod ar brofiad gwaith mewn ystod o fusnesau lleol yng Nghasnewydd. Mae hyn wedi eu galluogi i feithrin datblygiad personol a'r gallu i ddatblygu sgiliau ymhellach yn eu sectorau dewisol. Roedd hyn hefyd yn caniatáu iddynt roi amser yn ôl i'r gymuned leol.

Mae Academi Ieuentid Casnewydd hefyd wedi gallu mynd â dysgwyr ar daith gyfoethogi ddiweddar i Aquapark ym Mae Caerdydd. Rhoddodd hyn gyfle i'r dysgwyr fwynhau profiad bythgofiadwy.

"Fe wnes i fwynhau'r parc dŵr yn fawr oherwydd y ffordd y gwnaeth pob un ohonom fondio a chael hwy!"



"Mae Academi Ieuentid Casnewydd wedi newid pethau'n llwyr i mi. Rhoddodd y sgiliau a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen arnaf i symud ymlaen a chael swydd yn JD Sports. Mae'r arweiniad a'r cyfleoedd a gynigir gan yr academi wedi paratoi'r ffordd ar gyfer fy llwyddiant. Rwy'n ddiolchgar am y profiadau a'r wybodaeth werthfawr a gefais trwy eu rhaglenni, ac mae hyn wedi bod yn allweddol i'm twf a'm datblygiad proffesiynol" (tystiolaeth dysgwr, 2024)



"Fe wnes i fwynhau'r parc dŵr yn fawr ac fe helpodd fi i fod yn fwy hyderus wrth nofio"



# Canolfan Gymunedol Ringland

## Men's social group

**Date:** Monday afternoons between 16 September and 21 October 2024  
**Times:** 1:30pm - 3pm  
**Venue:** Ringland Community Centre

Our community engagement team will be running a social group for men over the age of 18. Come along and meet others, have a chat, socialise, take part in card games and sports.

For more info email [matthew.rees@newport.gov.uk](mailto:matthew.rees@newport.gov.uk)



Trwy gyllid a sicrhawyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, mae GAVO a Chyngor Dinas Casnewydd yn gwahodd grwpiau cymunedol ac elusennau i wneud cais am hyd at £5000 er mwyn helpu i ddarparu gweithgareddau a hybiau cymunedol sy'n cefnogi pobl yn ystod misoedd y gaeaf trwy Sesiynau Hwb Cynnes.



Mae canllawiau a meini prawf llawn ar gael [yma](#), mae GAVO'n fwy na pharod i drafod syniadau am brosiectau cyn ymrwymo amser ac adnoddau i ysgrifennu cais. Gellir trefnu sgwrs anffurfiol drwy e-bostio ein [Swyddog Datblygu Cymunedol](#).



# Rhwydwaith Lles Integredig

## Rhaglen Gydweithredol Ringland



Oes gennych chi ddiddordeb neu eisoes yn darparu cefnogaeth a gweithgareddau i drigolion Ringland?

Ydych chi'n byw yn Ringland, a hoffai gymryd mwy o ran yn yr hyn sy'n digwydd yn eich cymuned?

Wyddoch chi fod rhwydwaith o bartneriaid yn cyfarfod bob deufis i drafod yr holl gefnogaeth a gwasanaethau sydd ar gael i'r ardal?

Mae gan y Rhwydwaith Lles Integredig grŵp Cydweithredol Ringland sydd am barhau i gael ei arwain gan y gymuned a rhannu gwaith da a allai fod yn digwydd yn yr ardal. Dim ond gyda mewnbwn y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn adnabod yr ardal y gallwn wneud hyn.

Rydym wrthi'n chwilio am aelodau o'r gymuned, sefydliadau gwirfoddol, aelodau grwpiau cymunedol a hyrwyddwyr cymunedol i ymuno â Ringland Collaborative.

Mae hwn yn gyfle i'r rhai sydd efallai eisieu cymryd mwy o ran yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a hefyd yn gyfle i lunio'r cyfleoedd cymunedol yn y dyfodol, trwy ddod â'ch sgiliau a'ch gwybodaeth leol i'r bwrdd.

Mae amrywiaeth o bartneriaid a sefydliadau eisoes yn cymryd rhan gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Dinas Casnewydd, Cartrefi Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent, Cyfoeth Naturiol Cymru, MIND Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent a llawer mwy.

Os oes gennych chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, ddiddordeb mewn ymuno, e-bostiwch [info@yournewport.co.uk](mailto:info@yournewport.co.uk) gyda'ch enw llawn a'ch rhif cyswllt. Yna byddwn yn eich ychwanegu at ein rhestr bostio ac yn anfon gwahoddiad ffurfiol i'r cyfarfod nesaf.

casnewydd  
eich lles



your newport  
your wellbeing



NEWPORT  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
CASNEWYDD

# Arolwg Iechyd Menywod a Merched

**Mae eich anghenion iechyd yn unigryw.**

Mae'r Rhwydwaith Lles Integredig mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd yn edrych i gasglu eich barn am iechyd menywod a merched, er mwyn helpu i lunio'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau.

"Mae anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd yn bodoli rhwng dynion a menywod a rhwng gwahanol grwpiau o fenywod yng Nghymru" (Iechyd Menywod yng Nghymru, 2022)

Rhannwch  
gyda'ch  
cydweithwyr,  
timau, teulu,  
ffrindiau a  
rhwydweithiau

Sganio i gael mynediad  
i'r arolwg iechyd  
menywod

Ar gael mewn 18 iaith



e: [info@yournewport.co.uk](mailto:info@yournewport.co.uk)  
[www.yournewport.co.uk](http://www.yournewport.co.uk)





# CYSYLLTIAD AR-LEIN I'CH CYMUNED

## Your Newport, Your Wellbeing.

A **free** wellbeing map to help you find **wellbeing services, activities & organisations** in Newport.

[yournewport.co.uk](http://yournewport.co.uk)



Gyda phopeth o glybiau i weithgareddau, i grwpiau a sefydliadau, gallwch ddefnyddio'r map am ddim hwn i ddod o hyd i bethau i'ch helpu chi a'ch teulu i gyfoethogi eich iechyd a llesiant.

Mae'r mapiau yn galluogi cymunedau lleol i ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ofyn am help, y gallant ei defnyddio i ddechrau gwella eu lles.

Os ydych yn grŵp neu sefydliad cymunedol ac yn dymuno cael eich ychwanegu i'r cyfeirlyfr ar-lein a map rhyngweithiol, anfonwch e-bost at: [info@yournewport.co.uk](mailto:info@yournewport.co.uk).

